# CYHOEDDI PAPURAU NEWYDD YNG NGHYMRU

## gan BETI JONES

Cyn dyfodiad argraffu — ac nid cyn 1718 y gwelwyd y wasg argraffu gyntaf yng Nghymru — rhaid dyfalu bod y Cymro cyffredin yn gorfod dibynnu am ei 'newyddion' ar dameidiau o wybodaeth a glywai yn sgwrs ei gydweithwyr yn y maes ac yn y dafarn, ar straeon a adroddid gan filwyr, morwyr, porthmyn a theithwyr eraill, ar ambell bregeth, ac ar sôn a siarad yn gyffredinol.

Weithiau fe ddethlid rhyw ddigwyddiad pwysig neu gyffrous mewn cerdd. Ceir, er enghraifft, gerdd Gymraeg syml sy'n llawenhau yng nghwymp Babington a'i gyd-gynllwynwyr a roddodd eu bryd ar lofruddio'r Frenhines Elisabeth yn 1586. Dathlwyd cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg yn 1588 hefyd mewn cerdd boblogaidd, a cheir yr un awdur yn diolch ar gân am wasgariad Armada Sbaen yn yr un flwyddyn. Cofnodir methiant Brad y Powdwr Gwn yn yr un modd, tra canodd Rhys Prichard, yr 'Hen Ficer', gân i ddiolch i Dduw am ddychweliad diogel Tywysog Cymru — Siarl I yn ddiweddarach — o Sbaen lle bu'n caru merch y Brenin yno yn 1623. Daeth cerddi o'r fath i'r golwg yn raddol tua diwedd cyfnod y Tuduriaid, oherwydd bod yr hen draddodiad canu caeth yn gwanychu erbyn hynny, a gwaith beirdd llai yn dod i'r amlwg ac yn cael ei gefnogi yn llawysgrifau'r cyfnod. Y mae'n rhesymol tybio bod cerddi syml am ddigwyddiadau'r dydd wedi bodoli ochr yn ochr â'r traddodiad barddol swyddogol bob amser, ac wedi cyfrannu at ledaeniad newyddion ymhlith y bobl gyffredin, er i hynny fod ar lefel leol a chyfyngedig.

Yn 1680 y gwelwyd am y tro cyntaf yng Nghymru gais i ledaenu gwybodaeth a newyddion drwy gyfrwng argraffu, pan gyhoeddodd Thomas Jones o Gorwen, a aeth i Lundain yn 18 oed, y cyntaf o'i ddeuddeg almanac ar hugain blynyddol. Seiliwyd hwy ar y digonedd o gyhoeddiadau tebyg a oedd yn gyfarwydd yn Llundain, ond gosododd Thomas Jones hwynt mewn cyd-destun cyfan gwbl Gymraeg, a rhoddodd iddynt gymeriad unigryw. Gan amlaf cynhwysent galendr cyfredol, awgrymiadau cyffredinol mewn perthynas ag amaethyddiaeth a materion meddygol, hysbysrwydd am ffeiriau ac amrywiol eisteddfodau, rhestri o leoedd a phobl nodedig, dyddiadau digwyddiadau o bwys er dechrau'r byd, serddewiniaeth, darogan, a phynciau amrywiol eraill. Cynhwysai'r almanaciau Cymreig hefyd ddeunydd llenyddol fel carolau a baledi, ac weithiau gyfarwyddiadau i'r rhai a ddymunai feistroli'r mesurau caeth. Nid yw'n syndod mai'r cyhoeddiadau bychain rhad hyn, yn eu cloriau papur, ac yn cynnwys rhyw 48 tudalen, a gynhyrchwyd gan Thomas Jones, ac yn ddiweddarach gan ei ddilynwyr, oedd y cyhoeddiadau Cymraeg mwyaf poblogaidd o ddigon yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif.

Ar wahân i'w waith arloesol fel almanaciwr, gellir yn deg alw Thomas Jones yn dad y papur newydd Cymraeg, oherwydd y mae cyfeiriadau yn ei almanaciau am 1691 a 1692 at daflen newyddion Gymraeg a gynhyrchwyd ganddo ar gyfer y farchnad Gymraeg. Fodd bynnag, ni bu'r fenter yn llwyddiannus, ac hyd y gwyddys, nid oes yr un copi o'r hyn y mae'n rhaid ei alw yn 'bapur newydd Cymraeg cyntaf' wedi goroesi.

### BALEDI PRINTIEDIG

Penderfyniad y Llywodraeth yn 1698 i beidio ag adnewyddu'r Deddfau Trwyddedu, a oedd hyd yma wedi cyfyngu argraffu i rai canolfannau penodol, a'i gwnaeth yn bosib i Thomas Jones symud o Lundain i Amwythig, a'i ddwyn yn nes at ei ddarllenwyr Cymraeg fel canlyniad. Sylwodd eraill ar boblogrwydd mawr y deunydd a ddarperid ganddo, a chyn bo hir yr oedd argraffwyr Amwythig yn cynhyrchu, yn ogystal ag almanaciau, ugeiniau lawer o bamffledi wyth tudalen, yn cynnwys dwy neu dair baled, gan amlaf ar amrywiol bynciau, ond â'r pwyslais yn gyffredinol ar ddigwyddiadau'r dydd a rhyfeddodau. Y baledi hyn, a luniwyd i raddau helaeth gan y crwydriaid a'u canai ac a'u gwerthai yn y ffeiriau, y marchnadoedd, ac ar y strydoedd ledled y wlad, oedd y deunydd mwyaf poblogaidd o ddigon a ddaeth allan o Amwythig, canolfan argraffu Cymraeg am gyfnod, ac o'r gweisg niferus eraill a ymddangosodd ym mhob rhan o Gymru ar ôl 1718.

Nid yn unig y darparai'r baledi hyn adloniant ar gyfer y bobl gyffredin, gyda'u cyfeiriadau at garwriaeth, crefydd, chwedloniaeth, llên gwerin ac arferion newydd fel yfed te, ond fe ddaethpwyd i'w hystyried a'u gwerthfawrogi hefyd fel ffynhonnell gwybodaeth, yn eu hymgais i fodloni awydd y cyhoedd am gael gwybod am y llofruddiaethau diweddaraf, damweiniau yn y pyllau glo, llongddrylliadau, heintiau a daeargrynfeydd, yn ogystal â'r newyddion diweddaraf o faes y gad yn Ffrainc, America, yr India a'r Crimea. Dim ond pan ddechreuodd papurau newydd Cymraeg ymddangos yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg y dechreuodd y baledi golli eu lle fel cyfrwng i gadw'r dyn cyffredin mewn cysylltiad â'r byd y tu allan i ffiniau ei blwyf.

Lewis Morris (Llywelyn Ddu o Fôn) oedd y cyntaf i geisio sefydlu cylchgrawn cyfnodol yng Nghymru. Sefydlodd wasg argraffu yng Nghaergybi yn 1735 ac oddi yno dechreuodd gyhoeddi cylchgrawn chwarterol o dan yr enw *Tlysau yr Hen Oesoedd.* Byr iawn fu oes y cylchgrawn ac mae'n ymddangos mai un rhifyn yn unig gafodd ei gyhoeddi.

### CYHOEDDI PAPURAU NEWYDD

Daeth cyhoeddi papurau newydd yn hwyr i Gymru o'i gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig. Gellir egluro hyn yn rhannol drwy gyfeirio at y diffyg cysylltiadau a phoblogaeth wasgaredig a thenau a oedd i raddau helaeth yn ddi-Saesneg. Yr oedd papurau dwyieithog, a geisiai ddarparu ar gyfer siaradwyr Cymraeg a'r elfen fechan Saesneg ei hiaith, o dan anfantais o'u cymharu â phapurau unieithog am fod eu gofod newyddion yn fwy cyfyngedig, ac yr oeddynt yn ddrud i'w cynhyrchu. Yr oedd poblogaeth y trefi mwy fel Caerdydd ac Abertawe wedi derbyn gwasanaeth papurau a gyhoeddwyd yn gynharach ym Mryste, Caerloyw, Henffordd a Llundain.

Gwlad fechan o ryw 8,000 milltir sgwâr yw Cymru, a phoblogaeth yn 1801 o tua 580,000 o gymharu â 8.5 miliwn Lloegr. Ymddangosodd y *Cambrian,* y papur newydd cyntaf i'w gyhoeddi yng Nghymru, yn Abertawe yn 1804. Yr oedd Abertawe ar y pryd yn dechrau datblygu'n dref fasnachol a diwydiannol brysur, a chanddi'r cysylltiadau angenrheidiol i ddosbarthu papur newydd i'r lleiafrif Saesneg eu hiaith ym mhrif drefi de Cymru. Yn fuan wedyn, yn 1808, cyhoeddwyd y *North Wales Gazette* ym Mangor, wythnosolyn cyntaf gogledd Cymru. Saesneg oedd y ddau bapur, a chefnogid hwy gan deuluoedd lleol dylanwadol yn ogystal â Saeson megis yr Hayes a'r Dillwyniaid, Abertawe a'r Browns a'r Brosters ym Mangor. Dwy flynedd yn ddiweddarach yr oedd papur arall i ymddangos — *y Carmarthen Journal* — a geisiai am ei ddarllenwyr yng Ngorllewin Cymru. Ceidwadol oedd naws y ddau bapur olaf a enwyd, a goroesodd y ddau hyd heddiw.

Ymddangosodd yr wythnosolyn Cymraeg cyntaf yn 1814. *Seren Gomer* oedd ei enw, ac fel yn achos y *Cambrian,* lleolwyd ef yn Abertawe. Yn wahanol i'r papurau eraill a enwyd yn barod, gwelai *Seren Gomer* ei hun fel papur cenedlaethol a'i fryd ar wasanaethu Cymru gyfan. Yr oedd ei ymddangosiad yn ganlyniad i'r alwad am ddiwygio'r senedd a ddaeth yn sgîl rhyfeloedd Napoleon, a disgrifiwyd ei sefydlydd a'i olygydd, Joesph Harris *(Gomer)* fel diwygiwr cymedrol a wrthwynebai bob math o drais a thywallt gwaed. Tynnai sylw at gyflwr truenus cynrychiolaeth seneddol yng Nghymru, a galwai am ailrannu seddau, estyniad yr etholfraint, a diwygiad etholiadol. Er hynny, byr fu parhad yr ymdrech lew hon i ddileu difrawder y Cymry yn y cyfeiriad hwn. Oherwydd y dreth drom a roid ar bapurau newydd y dydd, a'r anawsterau a brofwyd wrth geisio dosbarthu'r papur ledled Cymru, daeth i ben yn Awst 1815. Ailymddangosodd yn bythefnosolyn yn 1818, ac aeth yn fisolyn yn 1820.

Dechreuodd papurau newydd Cymraeg eraill ymddangos yn fuan ar ôl y gostyngiad yn y dreth stamp yn 1836. Y cyntaf ohonynt oedd *Cronicl yr Oes* (Yr Wyddgrug 1836), er i'r ddau argraffiad cyntaf ymddangos o dan y teitl *Y Newyddiadur Wythnosol.* Ar ôl y trydydd argraffiad cymerodd Roger Edwards, gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn Yr Wyddgrug, at yr olygyddiaeth ac aeth y papur yn rhyddfrydol o ran ei wleidyddiaeth. Dilynwyd ef yn fuan gan *Y Papur Newydd Cymraeg* (Caernarfon 1836), a'r amryddawn Hugh Hughes yn ei berchen a'i argraffu.

Un papur newydd Cymraeg o gryn bwysigrwydd oedd *Yr Amserau* o dan olygyddiaeth y gwron radical William Rees *(Gwilym Hiraethog).* Ei uchelgais ef oedd deffro ei gydwladwyr i'w hawliau fel dinasyddion, eu darbwyllo i feddwl drostynt eu hunain, a'u diddyfnu'n gyffredinol oddi wrth eu taeogrwydd. Dechreuwyd cyhoeddi'r *Amserau* yn Lerpwl yn 1843, ond erbyn Gorffennaf 1848 (rhif 117) yr hyn a geid yn yr argraffnod oedd: 'Printed and Published in Douglas, Isle of Man, by John Lloyd at the Mona'r Herald and Printing